Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2022 – Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Blwyddyn archwilio: 2022

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3322A2023

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae’r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw’r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2023

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae’r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o'r cyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau 9

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 14

Atodiad 2 – ffi archwilio 16

Atodiad 3 – risgiau i archwilio'r cyfrifon 17

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o'm gwaith archwilio yn 2022 yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) a wnaed i gyflawni fy nghyfrifoldebau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno'n ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u gosod gerbron y Senedd;
- fy argyhoeddi fy hun bod gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd a'u bod yn unol â'r awdurdodau; a hefyd
- fy argyhoeddi fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau.

2 Rwy'n nodi fy nghanfyddiadau ar y cyfan dan y penawdau canlynol:

- Archwiliad o'r cyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau

3 Digwyddodd gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a achoswyd gan bandemig COVID-19. Roedd cyrff iechyd nid yn unig yn mynd i'r afael â'r heriau uniongyrchol a achoswyd gan argyfwng iechyd y cyhoedd ond roeddent hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau i ymateb i'r niferoedd sylweddol o bobl sy'n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth. Cafodd fy rhaglen waith ei dylunio, felly, i roi'r sicrwydd gorau i bobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda. Rwyf wedi ystyried effaith yr argyfwng cyfredol ar gydnerthedd gwasanaethau cyhoeddus a'u trefn yn y dyfodol.

4 Roeddwn yn amcanu at sicrhau na fyddai fy ngwaith yn amharu ar ymdrechion cyrff cyhoeddus i fynd i'r afael â'r argyfwng, gan sicrhau hefyd ei fod yn parhau i gefnogi craffu a dysgu. Fe wnaethom barhau i weithio ac ymgysylltu o bell gan mwyaf lle'r oedd yn bosibl, gan ddefnyddio technoleg, ond fe ailddechreuwyd peth gwaith archwilio ar y safle lle'r oedd yn ddiogel ac yn briodol gwneud hynny. Mae'n anorfod bod hyn wedi cael effaith ar y ffordd yr ydym yn gwneud gwaith archwilio ond mae hefyd wedi helpu i wreiddio newidiadau cadarnhaol i'n ffyrdd o weithio.

5 Fel yn y ddwy flynedd flaenorol, rwyf wedi parhau i wneud fy ngwaith archwilio cyfrifon o bell gan mwyaf. Mae'r llwyddiant o ran ei gyflawni'n adlewyrchu cydymdrech wych gan fy staff a chan swyddogion yr Ymddiriedolaeth.

6 Rwyf wedi addasu ffocws a dull fy ngwaith archwilio perfformiad i sicrhau ei berthnasedd yng nghyd-destun yr argyfwng ac i'w gwneud yn bosibl gweithio o bell. Rwyf wedi gwneud sylwadau am sut y mae GIG Cymru'n mynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am ofal wedi'i gynllunio. Mae fy nhimau archwilio lleol wedi gwneud sylwadau ynglŷn â sut y mae trefniadau llywodraethu wedi addasu i

ymateb i'r pandemig, a'r effaith y mae'r argyfwng wedi'i chael ar ddarparu gwasanaethau.

7 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd mewn adroddiadau mwy manwl i'r Ymddiriedolaeth eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws gwaith sy'n dal ar y gweill, ond nad yw wedi cael ei gwblhau eto.

8 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu costau gwneud fy ngwaith, o'i gymharu â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2022.

9 Mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau i archwilio'r cyfrifon a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2022 a sut yr aethpwyd i'r afael â hwy drwy'r archwiliad.

10 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Byddwn yn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 2 Mawrth 2023. Bydd y Bwrdd yn cael yr adroddiad yn un o gyfarfodydd diweddarach y Bwrdd a bydd pob aelod yn cael copi. Rydym yn annog yr Ymddiriedolaeth yn gryf i drefnu ei fod yn cael ei gyhoeddi'n ehangach. Byddwn yn trefnu bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

11 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu help a'u cydweithrediad trwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o'r cyfrifon

12 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn berthnasol gywir ac rwyf wedi rhoi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni chanfu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad i).

13 Fe ddygais nifer o faterion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio, y byddaf yn eu hadolygu a'u monitro fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2022-23.

14 Ni chanfûm unrhyw drafodion ariannol perthnasol yng nghyfrifon yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2021-22 nad oeddent yn unol â'r awdurdodau neu nas defnyddiwyd at y diben a fwriadwyd, ac felly rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2021-22.

15 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth fantoli'r cyfrifon ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, gan adrodd ar warged cronnol o £190,000. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynllun tair blynedd cymeradwy.

16 Ni osodais adroddiad o sylwedd ar y cyfrifon ochr yn ochr â'm barn eleni gan nad oedd unrhyw faterion i adrodd arnynt.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau

17 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

- er bod sawl agwedd ar drefniadau llywodraethu ansawdd yr Ymddiriedolaeth yn gweithio'n dda, mae angen gwelliannau mewn nifer o feysydd allweddol i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn meddu ar wybodaeth lawn am faterion sy'n ymwneud ag ansawdd a diogelwch ei gwasanaethau. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth chwarae ei rhan hefyd yn y gwelliannau sy'n ofynnol ar gyfer ymateb i adroddiadau ar ddigwyddiadau difrifol lle ceir digwyddiadau ar draws ffiniau sefydliadol.
- canfu fy ngwaith asesu strwythuredig fel a ganlyn:
  - er y bu newidiadau diweddar mewn arweinyddiaeth, mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i gael ei harwain yn dda. Gan gydnabod bod trefniadau llywodraethu'n gwella, dylai'r Ymddiriedolaeth barhau hefyd i geisio cyfleoedd i wella'i dylanwad a'r modd y mae'n cydweithio gyda phartneriaid allweddol i helpu i ddatrys rhai o'r heriau sylweddol o ran perfformiad ac ansawdd y mae'n eu hwynebu.
  - ceir dulliau da ar gyfer datblygu cynlluniau, ond mae angen ffocws cryfach ar ymgysylltu â staff a phartneriaid a mwy o her mewn perthynas ag effaith cynlluniau o ran cefnogi gwelliannau mewn perfformiad.
  - mae gan yr Ymddiriedolaeth ymagwedd dda at gynllunio, rheolaeth ac adrodd ariannol; fodd bynnag, mae cyfleoedd i leihau'r aneffeithlonrwydd sylweddol a achosir gan bwysau allanol y system.
  - mae angen gweithredu i sicrhau bod y gwaith cadarnhaol i gefnogi lles staff yn cael yr effaith a ddymunir a hefyd i gadw ffocws ar ostwng cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch. Byddai'r broses o roi'r strategaeth ddigidol ar waith yn cael ei chryfhau gan oruchwyliaeth well ar y rhaglen a mwy o eglurder ynghylch cyllid. Mae angen gwneud penderfyniadau strategol hefyd mewn perthynas ag anghenion tymor hwy o ran yr ystâd a datgarboneiddio.

18 Caiff y canfyddiadau hyn eu hystyried ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o'r cyfrifon

19 Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos stiwardiaeth ar arian cyhoeddus. Trwy gyfrwng y cyfrifon y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei asedau net, ei gostau gweithredu net, enillion a cholledion, a llifoedd arian. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny'n darparu barn ynglŷn â'u cywirdeb a defnyddio arian cyhoeddus yn briodol ('rheoleidd-dra').

20 Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2022 yn nodi'r risgiau allweddol i archwilio'r cyfrifon ar gyfer 2021-22 a manylir ar y rhain ynghyd â sut yr aethpwyd i'r afael â hwy yn **Arddangosyn 4** yn **Atodiad 3**.

21 Caiff fy nghyfrifoldebau am archwilio'r cyfrifon eu disgrifio yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

### Cywirdeb a pharatoi cyfrifon 2021-22

22 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi cael eu paratoi'n briodol a'u bod yn berthnasol gywir ac rwyf wedi rhoi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni chanfu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad i); fodd bynnag, dygais rai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer gwella.

23 Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ei datganiadau ariannol anarchwiliedig erbyn y terfyn amser a roddwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y papurau gwaith a ddarparwyd yn gynhwysfawr ac o ansawdd da, ac fe ymatebodd swyddogion yn brydlon i ymholiadau archwilio a cheisiadau am ragor o wybodaeth.

24 Rhaid i mi adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (y Pwyllgor Archwilio) i gael eu hystyried cyn fy mod yn cyhoeddi fy marn archwilio ynglŷn â'r cyfrifon. Fe wnaeth fy Arweinydd Ymgymeriad Archwilio Ariannol y materion hyn yn hysbys ar 13 Mehefin 2022. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a wnaed yn hysbys i'r Pwyllgor Archwilio**

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Roedd dau gamddatganiad nas cywirwyd a ganfuwyd yn y cyfrifon:<br>• Mynegai: Dilynodd yr Ymddiriedolaeth ganllawiau Llywodraeth Cymru i beidio â chymhwyso'r cynnydd yn y mynegai yr hysbyswyd yn ei gylch tuag at ddiwedd mis Mawrth 2022. Fe arweiniodd |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| | hyn at danddatgan gwerthoedd asedau o £328,000.<br>• Les cyllid: Canfuwyd fod yr estyniad ar gontract les cyllid Airwave yr Ymddiriedolaeth wedi dod i ben ym mis Rhagfyr 2022 ac nid mis Tachwedd 202, fel a ddynodwyd gan y modelau ariannol gwreiddiol a ddarparwyd ar gyfer yr Ymddiriedolaeth ar adeg negodi'r contract. Fe arweiniodd hyn at danddatgan gwerth yr ased a rhwymedigaeth y brydles cyllid o £166,000. |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Roedd camddatganiadau yn y cyfrifon i ddechrau a gywirwyd gan y rheolwyr. |
| Materion arwyddocaol eraill | • Rhwymedigaeth bosibl sy'n deillio o'r cyfarwyddyd gweinidogol i Lywodraeth Cymru i ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn uwchlaw'r lwfans blynyddol ar gyfer cynilion pensiwn: fe wnaethom argymell y dylai'r Ymddiriedolaeth barhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i ddatrys y mater yn 2022-23, fel y gellir tynnu'r datgeliad ynghylch rhwymedigaeth ddigwyddiadol allan neu, os oes rhwymedigaeth wedi codi, cynnwys darpariaeth yn y cyfrifon.<br>• Eiddo, Offer a Chyfarpar ac Asedau Anniriaethol: fe wnaethom argymell y dylai'r Ymddiriedolaeth gwblhau adolygiad blynyddol o'i hasedau i ganfod y rhai nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach neu sydd wedi cael eu gwaredu a sicrhau bod y rhain yn cael eu tynnu allan o'r gofrestr asedau.<br>• Diffibrilwyr: fe wnaethom adrodd ar yr angen i'r Ymddiriedolaeth roi'r system tagio RFID arfaethedig ar waith i allu adnabod bodolaeth a lleoliad yr holl ddiffibrilwyr a ddelir ar y gofrestr asedau sefydlog yn rhwydd. |

25 Fe gynhaliais adolygiad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan hefyd. Deuthum i'r casgliad fod yr wybodaeth gysoni parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2022 a bod y ffurflen wedi cael ei pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

26 Mae fy archwiliad ar wahân o gyfrifon y cronfeydd elusennol yn mynd rhagddo, i gael ei gwblhau erbyn terfyn amser y Comisiwn Elusennau, sef 31 Ionawr 2023.

### Rheoleidd-dra trafodion ariannol

27 Rhaid i drafodion ariannol yr Ymddiriedolaeth fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rhaid iddi fod â'r pwerau i gael yr incwm ac i ysgwyddo'r gwariant. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan yr Ymddiriedolaeth y pwerau i'w cael neu eu hysgwyddo.

28 Ni chanfûm unrhyw drafodion ariannol perthnasol yng nghyfrifon yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2021-22 nad oeddent yn unol â'r awdurdodau neu nas defnyddiwyd at y diben a fwriadwyd, ac felly rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2021-22.

29 Ni osodais adroddiad o sylwedd ar y cyfrifon ochr yn ochr â'm barn eleni gan nad oedd unrhyw faterion i adrodd arnynt.

30 Mae gennyf y pŵer i osod adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth ochr yn ochr â'm barnau lle mae arnaf eisiau amlygu materion. Lle mae'r Ymddiriedolaeth yn methu â chyflawni un o'i dyletswyddau ariannol – i adennill costau dros gyfnod o dair blynedd ac i fod â chynllun tair blynedd cymeradwy – neu lle caiff fy marn ei hamodi, byddaf yn cyhoeddi adroddiad o sylwedd.

31 Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dwy ddyletswydd ariannol, gan gyflawni gwarged yn ystod o flwyddyn o £75,000 a gwarged cronnol dros dair blynedd o £190,000, ac roedd fy marnau'n ddiamod, felly ni chyhoeddais adroddiad o'r fath.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau

32 Mae'n ofynnol yn statudol fy mod yn fy argyhoeddi fy hun bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio'i hadnoddau. Mae fy ngwaith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf wedi fy nghynorthwyo i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ansawdd yr Ymddiriedolaeth.
- cynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

33 Caiff fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn eu nodi isod.

## Trefniadau llywodraethu ansawdd

34 Fe wnaeth fy adolygiad archwilio pa un a yw trefniadau llywodraethu'r sefydliad o gymorth i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd da. Canolbwyntiodd fy adolygiad ar yr ymagwedd weithredol a chorfforaethol at lywodraethu ansawdd, diwylliant ac ymddygiadau sefydliadol, strategaeth, strwythurau a phrosesau, llifoedd gwybodaeth a threfniadau adrodd.

35 Canfu fy ngwaith fel a ganlyn: **er bod sawl agwedd ar drefniadau llywodraethu ansawdd yr Ymddiriedolaeth yn gweithio'n dda, mae angen gwelliannau mewn nifer o feysydd allweddol i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn meddu ar wybodaeth lawn am faterion sy'n ymwneud ag ansawdd a diogelwch ei gwasanaethau. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth chwarae ei rhan hefyd yn y gwelliannau sy'n ofynnol ar gyfer ymateb i adroddiadau ar ddigwyddiadau difrifol ar draws ffiniau sefydliadol.**

36 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adnewyddu ei Strategaeth Ansawdd, mae'n cryfhau ei threfniadau rheoli risg ac mae wedi buddsoddi mewn prosesau gwella ansawdd. Mae llinellau atebolrwydd ar gyfer llywodraethu ansawdd yn glir, ac fe geir trefniadau da i wrando ar brofiadau cleifion a staff a gweithredu arnynt er bod angen mwy o ffocws i fynd i'r afael â phryderon ynghylch hysbysu am ddigwyddiadau, cyfraddau arfarniadau ac i sicrhau ymatebion digonol i unrhyw ddigwyddiadau bwlio ac aflonyddu.

37 Mae rôl y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion (QuEST) wedi'i diffinio'n glir, ac mae ei waith yn cael ei ategu gan gasgliad da o wybodaeth am berfformiad. Fodd bynnag, mae angen i archwilio clinigol ddod yn ffynhonnell sicrwydd mwy cydnabyddedig a gweladwy o fewn fframwaith llywodraethu ansawdd yr Ymddiriedolaeth.

38 Maes allweddol ar gyfer gwella yw'r angen i fynd i'r afael â'r ôl-groniad sylweddol o adolygiadau o farwolaethau, ac i sicrhau bod y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion yn cael digon o wybodaeth am gynnydd yn y maes yma. Mae angen triongli gwybodaeth o wahanol ffynonellau yn well hefyd i sicrhau bod dealltwriaeth lawn am ddeilliannau cleifion a niweidiau osgoadwy sy'n gysylltiedig ag arosiadau hir am ambiwlans brys.

39 Er bod system fewnol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli pryderon a digwyddiadau difrifol yn gadarn, nid yw'r fframwaith uwchgyfeirio ar y cyd ar gyfer rheoli digwyddiadau difrifol ar draws ffiniau sefydliadol yn effeithiol mwyach, a rhaid i'r Ymddiriedolaeth weithio gyda'i chomisiynwyr a'r byrddau iechyd sy'n bartneriaid iddi i wella hyn.

## Asesiad strwythuredig

40 Digwyddodd fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2022 ar adeg pan oedd cyrff y GIG nid yn unig yn dal i fynd i'r afael â'r heriau a achoswyd gan bandemig COVID-19 ond hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau i ymateb i'r niferoedd sylweddol o bobl sy'n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth.

41 Canolbwyntiodd fy nhîm ar drefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gyda ffocws penodol ar drefniadau llywodraethu'r sefydliad; ei drefniadau cynllunio strategol; ei drefniadau rheolaeth ariannol; a threfniadau i reoli'r gweithlu, asedau digidol, yr ystâd, ac asedau ffisegol eraill. Rhoddodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol.

42 Ar y cyfan, canfuom **fod yr Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau cadarnhaol i wella agweddau ar ei threfniadau llywodraethu corfforaethol, ond bod angen gwaith pellach i ddarparu'r her fewnol gref a'r dylanwad allanol parhaus sy'n ofynnol i oresgyn rhai o'r heriau gweithredol digynsail y mae'n eu hwynebu ar hyn o bryd.**

## Trefniadau llywodraethu

43 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, gyda ffocws penodol ar:

- effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau;
- i ba raddau y mae dyluniad sefydliadol yn ategu llywodraethu da; a
- systemau sicrwydd allweddol.

44 Canfu fy ngwaith fel a ganlyn: **er y bu newidiadau diweddar mewn arweinyddiaeth, mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i gael ei harwain yn dda. Gan gydnabod bod trefniadau llywodraethu'n gwella, dylai'r Ymddiriedolaeth barhau hefyd i geisio cyfleoedd i ddylanwadu a chydweithio gyda phartneriaid allweddol i helpu i ddatrys rhai o'r heriau sylweddol o ran perfformiad ac ansawdd y mae'n eu hwynebu.**

45 Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i dryloywder cyhoeddus, hunanfyfyrio a chlywed yn uniongyrchol gan gleifion a staff. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi llenwi swyddi allweddol ar lefel y Bwrdd yn effeithiol yn y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys Cadeirydd newydd ac mae'r broses ar gyfer recriwtio Is-Gadeirydd newydd yn mynd rhagddi. Mae cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n cael eu cynnal yn briodol ac fe'u hategir gan gynlluniau Dirprwyo eglur. Fodd bynnag, mae cyfle i gryfhau trefniadau llywodraethu yn enwedig mewn perthynas ag amseroldeb cyhoeddi papurau'r Bwrdd a phwyllgorau a chynyddu tryloywder cyhoeddus penderfyniadau a wneir yn sesiynau preifat y Bwrdd.

46 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei fframwaith risg; fodd bynnag, mae nifer o risgiau arwyddocaol wedi aros yn ddigyfnewid er gwaethaf camau lliniaru dros y misoedd diwethaf. Mae hyn yn awgrymu nad yw camau lliniaru i leihau'r risg wastad yn cael yr effaith a ddymunir. Mae'r Bwrdd yn cael gwybodaeth reolaidd am effaith methiannau'r system ehangach ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth ei hun a phryderon cysylltiedig ynghylch ansawdd ar gyfer cleifion. Gan gydnabod bod nifer o ffactorau y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth, rhaid i'r Ymddiriedolaeth barhau i geisio cyfleoedd i ddylanwadu ar bartneriaid i sicrhau

gwelliant yn ogystal â chanolbwyntio ar effaith camau gweithredu a gymerir yn lleol i ymdrin â'r materion hyn.

## Trefniadau cynllunio strategol

47 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried trefniadau cynllunio strategol yr Ymddiriedolaeth, gyda ffocws penodol ar yr hyn sydd gan y sefydliad o ran:

- ei weledigaeth ac amcanion strategol;
- ei Gynllun Tymor Canolig Integredig;
- ei drefniadau cynllunio; a hefyd
- ei drefniadau ar gyfer rhoi strategaethau a chynlluniau corfforaethol ar waith a monitro'r modd y cânt eu cyflawni.

48 Canfu fy ngwaith y **ceir dulliau da ar gyfer datblygu cynlluniau, ond bod angen ffocws cryfach ar ymgysylltu â staff a phartneriaid a mwy o her mewn perthynas ag effaith cynlluniau o ran cefnogi gwelliannau mewn perfformiad.**

49 Mae gan yr Ymddiriedolaeth weledigaeth hirdymor a strategaeth glinigol a gymeradwywyd gan y Bwrdd, sydd wedi'u gwreiddio yn iechyd y boblogaeth ac wedi'u halinio â strategaethau cenedlaethol allweddol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y bydd gwireddu ei dyheadau tymor hwy'n dibynnu ar ymrwymiad partneriaid, felly rhaid i ymgysylltu allanol ddal i fod yn flaenoriaeth. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Gynllun Tymor Canolig Integredig cytbwys a chymeradwy ar gyfer 2022-2025, sydd â cherrig milltir clir ac sydd wedi'i alinio'n dda â chynlluniau allweddol. Mae fframweithiau strategol cyfun yr Ymddiriedolaeth yn cael eu monitro'n chwarterol gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd, gyda hynny'n cael ei ategu gan fonitro manwl ar gyfer rhaglenni allweddol. Fodd bynnag, mae angen datblygu cynlluniau cyflawni eglur ac amserol i ategu ei dogfennau strategol a gwella ymwneud staff â'r broses gynllunio.

## Rheoli adnoddau ariannol

50 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli ei hadnoddau ariannol, gyda ffocws penodol ar yr hyn sydd gan y sefydliad o ran:

- ei drefniadau i gyflawni amcanion ariannol allweddol;
- ei reolaethau ariannol; a hefyd
- ei drefniadau ar gyfer adrodd ar berfformiad ariannol a'i fonitro.

51 Canfu fy ngwaith **fod gan yr Ymddiriedolaeth ymagwedd dda at gynllunio, rheolaeth ac adrodd ariannol; fodd bynnag, mae cyfleoedd i leihau'r aneffeithlonrwydd sylweddol a achosir gan bwysau allanol y system.**

52 Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswydd ariannol ar gyfer 2021-22 ac mae ganddi gynllun ariannol eglur ar gyfer 2022-25. Er bod gan gynllun arbedion eleni ffocws cynyddol ar arbedion trawsnewidiol, mae cyfleoedd o hyd i leihau'r ddibyniaeth ar reoli swyddi gweigion fel modd i gyflawni gostyngiadau anghylchol

byrdymor mewn costau. Mae’r materion system gyfan tra hysbys sy’n cyfrannu at oedi sylweddol wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys brys yn arwain at aneffeithlonrwydd ariannol sylweddol i’r Ymddiriedolaeth hefyd. Mae’r Ymddiriedolaeth yn dal i fod â systemau rheolaeth ariannol da ac mae adroddiadau ariannol y sefydliad yn eglur ac yn dod gerbron y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a’r Bwrdd yn rheolaidd.

## Rheoli’r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystâd ac asedau ffisegol eraill

53 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried trefniadau’r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli ei hadnoddau ehangach, gyda ffocws penodol ar yr hyn sydd gan y sefydliad o ran:

- ei drefniadau i gefnogi lles staff;
- ei drefniadau i reoli ei adnoddau digidol; a hefyd
- ei drefniadau i reoli ei ystâd ac asedau ffisegol eraill.

54 Canfu fy ngwaith **fod angen gweithredu i sicrhau bod y gwaith cadarnhaol i gefnogi lles staff yn cael yr effaith a ddymunir a hefyd i gadw ffocws ar ostwng cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch. Byddai’r broses o roi’r strategaeth ddigidol ar waith yn cael ei chryfhau gan oruchwyliaeth well ar y rhaglen a mwy o eglurder ynghylch cyllid. Mae angen gwneud penderfyniadau strategol hefyd mewn perthynas ag anghenion tymor hwy o ran yr ystâd a datgarboneiddio.**

55 Mae’r Ymddiriedolaeth wedi datblygu rhaglen eang i gefnogi lles staff yr ymddengys ei bod yn cael ei defnyddio’n dda. Fodd bynnag, nid yw’r Ymddiriedolaeth yn gwerthuso effaith y gwasanaethau hyn eto i sicrhau eu bod yn gwneud gwahaniaeth go iawn. Mae rheoli absenoldeb oherwydd salwch yn dal i fod yn faes ffocws allweddol, ond mae cyfraddau absenoldeb yn uchel iawn, yn enwedig ymhlith staff yr Ymddiriedolaeth mewn gwasanaethau meddygol brys.

56 Mae strategaeth ddigidol yr Ymddiriedolaeth yn cael ei rhoi ar waith ond mae cyfle i gryfhau a gwella goruchwyliaeth ar ei rhaglen ddigidol yn ei chyfanrwydd. Mae’r Ymddiriedolaeth wrthi hefyd yn datblygu Rhaglen Amlinellol Strategol ddigidol i eistedd ochr yn ochr â Rhaglenni Amlinellol Strategol Fflyd ac Ystadau’r Ymddiriedolaeth. Er bod rhai agweddau ar y rhaglen ddigidol yn cael eu hariannu, fe gymeradwywyd y strategaeth heb eglurhad sut y byddai’n cael ei hariannu yn ei chrynswth.

57 Mae’r Ymddiriedolaeth yn bwriadu blaenoriaethu buddsoddiad yn yr ystâd ond mae’n wynebu heriau oherwydd bod llai a llai o gyllid cyfalaf dewisol ar gael. Rhaid iddi sicrhau, ar yr un pryd, y gwneir penderfyniadau strategol priodol i gefnogi anghenion tymor hwy o ran ystadau ac agendau ddatgarboneiddio’r sefydliad.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Ymddiriedolaeth yn 2022.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Mehefin 2022 |
| Barn am y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2022 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd | Awst 2022 |
| Asesiad Strwythuredig 2022 | Rhagfyr 2022 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio'r Ymddiriedolaeth 2022 | Ebrill 2022 |
| Cynllun Archwilio'r Elusen 2022 | Rhagfyr 2022 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth-am-arian cenedlaethol yn 2022 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a thestunau sy'n rhychwantu'r sector cyhoeddus cyfan. Ariennir yr astudiaethau hyn yn nodweddiadol trwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gefnogi ei waith o ran craffu ar wariant cyhoeddus. Mae'r adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy’n dal ar y gweill**

Ceir archwiliadau o berfformiad sy’n dal ar y gweill yn yr Ymddiriedolaeth. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda’r dyddiadau pan amcangyfrifir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau.

| Adroddiad | Dyddiad pan amcangyfrifir y bydd yn cael ei gwblhau |
|---|---|
| Gofal heb ei drefnu – mynediad at wasanaethau gofal heb ei drefnu | Gorffennaf 2023 |
| Cynllunio’r gweithlu | Mehefin 2023 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2022 yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig o £159,752 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail bod peth gwaith yn dal i fod ar y gweill, yn gyson â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

Gofynnodd yr Ymddiriedolwyr am archwiliad llawn o gyfrifon yr Elusen eleni, nad yw wedi'i gynnwys yn y ffi a nodir uchod. Roedd Cynllun Archwilio'r Elusen 2022 yn nodi ffi arfaethedig o £12,000 (heb gynnwys TAW) am y gwaith yma.

# Atodiad 3

## Risgiau i archwilio'r cyfrifon

**Arddangosyn 4: risgiau i archwilio'r cyfrifon**

Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2022 yn nodi'r risgiau i'r archwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2021-22. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| **Risgiau arwyddocaol** | | |
| Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Byddwn yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes. | Ar sail sampl fe wnaeth fy nhîm brofi cofnodion dyddlyfr ac amcangyfrifon cyfrifyddu ac ni chanfu unrhyw dystiolaeth bod rheolwyr wedi gwrthwneud rheolaethau. Roedd fy nhîm wedi'i argyhoeddi nad oedd unrhyw wall perthnasol yn y cyfrifon. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| **Risgiau arwyddocaol** | | |
| Mae’r broses o roi menter ‘y cynllun yn talu’ ar waith mewn perthynas â threfniadau treth pensiwn y GIG ar gyfer staff clinigol yn mynd rhagddi. Y llynedd, fe wnaethom gynnwys paragraff ‘Pwyslais ar Fater’ yn y farn archwilio a oedd yn tynnu sylw at eich datgeliad ynghylch y rhwymedigaeth ddigwyddiadol. Bydd ceisiadau i'r cynllun yn cau ar 31 Mawrth 2022, a phe bai unrhyw wariant yn ystod y flwyddyn, byddem yn ystyried ei fod yn afreolaidd gan y byddai’n groes i ofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. | Byddwn yn adolygu’r dystiolaeth flwyddyn yn ddiweddarach mewn perthynas â defnyddio’r cynllun a’r angen am ddarpariaeth, a’r effaith ganlyniadol ar y farn ynghylch rheoleidd-dra. | Fe wnaeth swyddogion adolygu’r telerau cymhwystra ar gyfer y cynllun a gwybodaeth a gafwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru a daethant i'r casgliad nad oedd yn ofynnol gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau yn y dyfodol o fewn y cyfrifon.<br>Fodd bynnag, gan nad yw Llywodraeth Cymru wedi cwblhau gwaith i ddyrannu achosion eto, mae’n briodol bod yr Ymddiriedolaeth wedi cynnwys datgeliad ynghylch rhwymedigaeth ddigwyddiadol o fewn y datganiadau ariannol ar gyfer y mater hwn.<br>Roedd fy nhîm yn cytuno â thriniaeth gyfrifyddu’r Ymddiriedolaeth mewn perthynas â’r mater hwn. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| **Risgiau arwyddocaol** | | |
| Mae dyletswydd ariannol ar Ymddiriedolaethau'r GIG i adennill costau dros gyfnod treigl o dair blynedd. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn adennill costau ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r ddyletswydd hon yn cynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon gan reolwyr sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol gynnwys gwyrdueddiadau mewn ymdrech i helpu i gyflawni'r ddyletswydd ariannol hon.<br>Lle mae'r Ymddiriedolaeth yn methu â chyflawni'r ddyletswydd ariannol hon, byddaf yn gosod adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol i amlygu'r methiant. | Byddwn yn canolbwyntio ein gwaith profi ar feysydd yn y datganiadau ariannol a allai gynnwys gwyrduedd adrodd. | Fe wnaeth fy nhîm amrywiaeth o waith archwilio i ddarparu sicrwydd ynghylch y risg o wyrduedd i sicrhau bod y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn gywir a theg. Roedd hyn yn cynnwys:<br>• profion samplu manwl ar drafodion y naill ochr a'r llall i ddiwedd y flwyddyn i sicrhau eu bod wedi'u cofnodi yn y cyfnod cyfrifyddu cywir. Fe ganolbwyntiodd hyn ar y meysydd lle ceir y risg fwyaf.<br>• sicrhau bod amcangyfrifon cyfrifyddu wedi'u paratoi ar sail resymol a'u bod wedi'u hategu gan ddyfarniadau cyfrifyddu priodol.<br>Roedd fy nhîm wedi'i argyhoeddi nad oedd unrhyw wallau perthnasol yn y cyfrifon. |
| Gohiriwyd cyflwyno IFRS 16 Prydlesi tan 1 Ebrill 2022. Gall fod yn ofynnol gwneud gwaith sylweddol i adnabod prydlesi a gallai argyfwng cenedlaethol COVID-19 achosi risgiau ychwanegol i'w rhoi ar waith. Bydd angen i gyfrifon 2021-22 ddatgelu effaith bosibl rhoi'r safon ar waith. | Byddwn yn adolygu cyflawnrwydd a chywirdeb y datgeliadau. | Fe wnaeth fy nhîm eu hargyhoeddi eu hunain bod y datgeliadau'n berthnasol gyflawn a chywir. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| **Risgiau arwyddocaol** | | |
| Rydym yn archwilio rhai o'r datgeliadau yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol, megis cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion ac aelodau annibynnol, yn ôl lefel perthnasedd is. Felly mae'r datgeliadau yn eu hanfod yn fwy tueddol o gynnwys camddatganiadau perthnasol.<br>Bu nifer o newidiadau i'r uwch dîm rheoli a chyfarwyddwyr anweithredol yn ystod y flwyddyn ariannol. Ceir risg nad yw'r newidiadau hyn yn cael eu datgelu'n gywir yn Adroddiad yr Ymddiriedolaeth ar Gydnabyddiaeth Ariannol. | Byddwn yn adolygu'r holl gofnodion yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol i wirio bod yr Ymddiriedolaeth wedi adlewyrchu'r holl newidiadau hysbys i uwch swyddi, a bod y datgeliadau'n gyflawn ac yn gywir. | Fe wnaed y gwaith fel a fwriadwyd.<br>Cytunwyd ar rai newidiadau gyda'r Ymddiriedolaeth i sicrhau bod yr adroddiad terfynol ar gydnabyddiaeth ariannol yn gywir a bod datgeliadau'n cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Cyfrifon y GIG. |
| Mae ffrydiau cyllid a gwariant cynyddol o hyd yn 2021-22 i ymdrin â phandemig COVID-19. Gallai'r rhain gael effaith ar y risgiau o gamddatganiadau ac ar drefn ein harchwiliad ac ar ein hymagwedd ato. Mae enghreifftiau o faterion yn cynnwys twyll, gwall, a risgiau o ran rheoleidd-dra mewn perthynas â gwariant ychwanegol; prisio (gan gynnwys darfodedigrwydd) rhestrau eiddo ar ddiwedd y flwyddyn, gan gynnwys cyfarpar diogelu personol; ac amcangyfrif balansau gwyliau blynyddol. | Byddwn yn adnabod y materion allweddol a risgiau cysylltiedig ac yn cynllunio ein gwaith i gael y sicrwydd y mae ei angen ar gyfer ein harchwiliad. | Fe gwblhaodd fy nhîm brofion archwilio mewn perthynas â chyllid a oedd yn gysylltiedig â COVID-19, a hefyd ar falansau diwedd blwyddyn. Ni chanfuwyd unrhyw faterion o'r gwaith a gwblhawyd. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| **Risgiau arwyddocaol** | | |
| Er bod cyfyngiadau COVID-19 wedi cael eu codi bellach, bu pwysau parhaus ar adnoddau staff ac o ganlyniad i weithio o bell a allai effeithio ar baratoi, archwilio a chyhoeddi'r cyfrifon. Ceir risg y bydd ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol yn cael ei beryglu gan arwain at fwy o wallau. Gallai trefniadau monitro ansawdd gael eu peryglu oherwydd materion amseru a/neu argaeledd adnoddau. | Byddwn yn trafod eich proses cau cyfrifon a threfniadau monitro ansawdd gyda'r tîm paratoi cyfrifon ac yn gwneud trefniadau i fonitro'r broses paratoi cyfrifon. Byddwn yn helpu i adnabod meysydd lle gall fod bylchau mewn trefniadau. | Fe wnaed y gwaith fel a fwriadwyd. Canfu fy nhîm fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cadarn ac ni chanfu unrhyw faterion yn hyn o beth. |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.